Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adolygiad thematig Estyn o addysg heblaw yn yr ysgol

ISBN digidol 978 1 4734 6966 2
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2016
WG28054

Teitl yr adroddiad:

Addysg heblaw yn yr ysgol

Manylion yr adroddiad

Comisiynwyd y cyngor gan Is-adran Cymorth i Ddysgwyr yr Adran Addysg a Sgiliau ac mae'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n derbyn eu holl addysg, neu'r brif ran ohono, ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r adroddiad yn dilyn adroddiad blaenorol Estyn ar arfer da mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Ar y cyfan, nid yw disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio'n gyfartal ar eu hawl i addysg o gymharu â'u cymheiriaid.
- Nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu cael at gwricwlwm teg a chytbwys fel arfer sy'n eu galluogi i ennill cymwysterau sy'n bodloni eu hanghenion a'u potensial.
- Nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael yr addysg amser llawn bob amser (25 awr yr wythnos, fel arfer) y mae hawl ganddynt ei chael.
- Mae disgyblion sydd wedi bod yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn flaenorol yn cael cyfleoedd cyfyngedig iawn i barhau â'u dysgu yn Gymraeg pan fyddant yn dechrau addysg heblaw yn yr ysgol.
- Yn aml, nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth arbenigol y mae arnynt ei angen, hyd yn oed pan fydd hyn wedi'i amlinellu mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig.
- Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn parhau i'w chael am weddill eu cyfnod yn yr ysgol.
- Mae bron pob awdurdod lleol yn cael anawsterau wrth sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio ar arbenigedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Ar y cyfan, nid yw prosesau cyfeirio awdurdodau lleol er mwyn i ddysgwyr gael at addysg heblaw yn yr ysgol yn glir nac wedi'u deall yn dda.
- Ar draws Cymru, mae diffyg dealltwriaeth o'r gofynion cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Ychydig iawn o benaethiaid, sydd â disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlwyddyn 11, sy'n tynnu eu henw o gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr. Mae hyn yn golygu bod cyrhaeddiad y disgyblion hyn, nad yw'n cyd-fynd â chyflawniad eu cyfoedion yn aml, yn cyfrif yn nata perfformiad yr ysgol. Mae eu hawdurdodau lleol yn cymeradwyo'r arfer hwn.

- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwylio addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ddigon trylwyr. Mae'r rhan fwyaf o awdurodau lleol yn casglu data ar bresenoldeb ac ymddygiad, ond nid ydynt yn cadw cofnod o anghenion dysgu disgyblion na'u cynnydd yn erbyn targedau dysgu.

- Ychydig iawn o athrawon addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig y rhai a gyflogir gan ddarparwyr annibynnol, sy'n gallu manteisio ar hyfforddiant a chymorth

- Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn comisiynu addysg amser llawn heblaw yn yr ysgol ar gyfer grwpiau mawr o ddisgyblion, gan ddarparwyr sydd heb gofrestru'n ysgolion annibynnol.

- Nid yw aelodau etholedig yn gwybod am bob agwedd ar addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

1 Cryfhau'r arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion ynghylch y gofyniad i:

a) hysbysu Llywodraeth Cymru am yr holl addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu ei chomisiynu, gan gynnwys canolfannau addysgu, UCDau a darpariaeth annibynnol
b) cynnal cofnodion o'r holl ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, a'r rhai sy'n derbyn darpariaeth amgen a drefnwyd gan ysgolion yn annibynnol ar eu hawdurdod lleol
c) cynnal cofnodion o nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n mynd ymlaen i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
d) gwella'r gallu i droi at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac asiantaethau arbenigol eraill i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

2. Cyhoeddi data cyrhaeddiad a phresenoldeb ar gyfer dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol ar lefel yr awdurdod lleol

3. Ystyried diwygio'r trothwy i ddarparwyr gofrestru'n ysgolion annibynnol

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1(a, b ac c) a 2

Rydym yn derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor. O ran argymhelliad 2, rydym eisoes wedi cyhoeddi'r data hwn ar lefel genedlaethol - gweler y ddolen isod. Trwy sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol, byddwn yn ystyried sut y gallwn gynnwys yr argymhelliad hwn wrth ddatblygu ein 'Fframwaith Gweithredu' ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.

http://llyw.cymru/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-chracteristics/?skip=1&lang=cy

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1(d)

Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae mynediad i wasanaethau CAMHS, fel pob darpariaeth gan y GIG, yn seiliedig ar anghenion clinigol, nid diagnosis na chategori. Byddai rhoi mynediad i unrhyw grŵp unigol ar sail categori yn gallu peri risg o leihau mynediad i rai sydd â lefelau uwch o angen. Byddwn yn disgwyl i unrhyw blentyn sydd mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac sydd â lefelau uchel o anghenion, i gael ei weld gan wasanaeth CAMHS â blaenoriaeth yn unol â'r angen hwnnw. Mae gwaith eisoes wedi dechrau gyda rhanddeiliaid allweddol i wella mynediad, a sicrhau mynediad mwy amserol i rai â lefelau uwch o anghenion gan gynnwys o fewn addysg heblaw yn yr ysgol, o fewn y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Bydd ein buddsoddiad blynyddol o £800,000 yn ychwanegol er mwyn ehangu'r gwasanaethau gofal sylfaenol i blant yn golygu y bydd modd diwallu anghenion llawer o bobl ifanc â chyflyrau lefel is heb eu cyfeirio i wasanaethau arbenigol CAMHS. Hefyd, mae'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gobeithio sicrhau bod partneriaid yn gallu rhoi cymorth priodol i bobl ifanc, trwy gyfrwng gwasanaethau cwnsela er enghraifft, lle'r ydym ar fin cyflwyno canllawiau newydd ar sut y gallai'r gwasanaethau hyn a CAMHS gydweithio. Mae addysg heblaw yn yr ysgol yn rhan o hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 3

Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i ddiwygio'r diffiniad cyfreithiol o ysgol annibynnol. Mae ysgol annibynnol yn golygu unrhyw ysgol lle darperir addysg amser llawn ar gyfer pump neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol neu un neu fwy o ddisgyblion o'r oedran hwnnw ag AAA neu sy'n derbyn gofal, na chynhelir gan awdurdod lleol.

Mae'r canllawiau i berchnogion ysgolion annibynnol yn cydnabod nad oes diffiniad cyfreithiol o 'amser llawn'. Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod sefydliad yn darparu addysg amser llawn os yw'n darparu addysg a fwriadwyd i ddarparu naill ai'r cyfan, neu gyfran sylweddol, o addysg plentyn.

Gall Estyn archwilio sefydliad y mae'n ei ystyried fel un a allai fod yn gweithredu fel ysgol annibynnol heb ei chofrestru. Mewn achosion o'r fath, bydd Estyn yn asesu a yw'r sefydliad yn bodloni'r diffiniad o ysgol annibynnol, a fydd yn cynnwys asesu a yw'r sefydliad yn darparu'r cyfan neu gyfran sylweddol o addysg y plentyn, gan ystyried unrhyw fathau eraill o addysg a allai gael eu darparu gan ffynonellau eraill.

Mae'n mynd ymlaen i gynghori a oes angen i'r sefydliad gofrestru gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol fod yn ddigon hapus bod rhieni'r plant sy'n mynychu'r cyfryw sefydliad yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg addas i'w hoedran, eu gallu a'u dawn.

Rydym wrthi'n diwygio'r canllawiau i berchnogion er mwyn esbonio'n gliriach y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw'r lleoliad yn darparu addysg amser llawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar wahân ar gynigion cofrestru ac arolygu ar gyfer lleoliadau addysg penodol y tu allan i'r ysgol. Rydym wrthi'n pwyso a mesur yr ymatebion ar hyn o bryd er mwyn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol

4. Hysbysu Llywodraeth Cymru am yr holl ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu'n ei chomisiynu

5. Gwirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr y maent yn eu defnyddio i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y ddarpariaeth y maent yn ei chomisiynu wedi'i chofrestru'n ysgol annibynnol gyda Llywodraeth Cymru

6. Sicrhau bod ysgolion yn deall gweithdrefnau cyfeirio at addysg heblaw yn yr ysgol a chynnwys y gofyniad bod gwybodaeth asesu a gwybodaeth arall yn trosglwyddo'n brydlon o'r ysgol i'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol

7. Monitro ansawdd yr holl ddarpariaeth amgen sy'n cael ei darparu neu ei chomisiynu ar gyfer disgyblion yn eu hawdurdod lleol, gan gynnwys darpariaeth wedi'i threfnu gan ysgolion neu drwy Rwydweithiau 14-19

8. Rhoi addysg addas i ddisgyblion o fewn 15 niwrnod o benderfynu y dylai disgybl gael addysg heblaw yn yr ysgol

9. Darparu cwricwlwm amser llawn i bob disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sy'n bodloni eu hanghenion, yn eu galluogi i gyflawni eu potensial ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hailintegreiddio lle bynnag y bo'n bosibl

10. Darparu addysg heblaw yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg yn Gymraeg

11. Bodloni'r gofyniad statudol i sicrhau bod disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael y cymorth sydd wedi'i gofnodi ar eu datganiad neu eu Cynllun Datblygu Unigol

12. Rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol am addysg heblaw yn yr ysgol i aelodau etholedig fel y gallant farnu ei heffeithiolrwydd a'i gwerth am arian

Argymhellion ar gyfer ysgolion

13. Gweithio'n agos gyda'u hawdurdod lleol a rhoi gwybodaeth gynhwysfawr, amserol iddo am yr holl ddisgyblion y mae'r ysgol yn eu cyfeirio am addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth amgen, gan gynnwys trwy Rwydweithiau 14-19

14. Gwirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr a ddefnyddiant a chadarnhau a ddylai'r darparwr fod wedi cofrestru os nad ydyw

15. Sicrhau bod darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sy'n addysgu disgyblion

o'u hysgol yn cael gwybodaeth o ansawdd da am anghenion dysgu ac ymddygiad disgyblion

16. Cadw mewn cysylltiad â disgyblion o'u hysgol sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, monitro cynnydd y disgybl, gan gynnwys perfformiad academaidd, a'i ailintegreiddio lle bynnag y bo modd gweithio'n agos gyda darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i sicrhau parhad yn y cwricwlwm i ddisgyblion o'u hysgol

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor. Wrth ymateb iddynt, disgwyliwn i awdurdodau lleol ac ysgolion roi sylw dyledus i ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016:

http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiad Estyn i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion trwy gylchlythyr Dysg, ac yn eu hannog i fynd i'r afael â'r argymhellion ynddo. Byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ystyried yr argymhellion fel rhan o waith parhaus y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol, a chyflawni Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Manylion cyhoeddi

Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi oddeutu 29 Mehefin 2016 ar wefan Estyn: www.estyn.llyw.cymru